Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

2025

# Y Gwobrau
# The Accolades

Dathlu *20* mlynedd • Celebrating *20* years

**Rhaglen y Gwobrau**
Dydd Iau, 1 Mai 2025
Gwesty Holland House Caerdydd

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

HUGH JAMES

BASW Cymru

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Practice Solutions

Gofalwn.cymru | WeCare.wales

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**



# LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Rydym yma i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio'ch safbwyntiau a'ch profiadau i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwell.**

## SGANIO AM FWY

**We're here to make sure your views and experiences are used by decision-makers to plan and deliver better health and social care services.**

## SCAN FOR MORE

MAE LLAIS YN FALCH O FOD YN NODDI'R GWOBRAU!

LLAIS IS PROUD TO BE SPONSORING THE ACCOLADES!

WWW.LLAISWALES.ORG WWW.LLAISCYMRU.ORG

# Trefn y rhaglen

| | |
|---|---|
| 12.15pm | **Derbyniad a bwffe** |
| 1pm | **Cychwyn y digwyddiad** |
| 1.05pm | **Neges gan Dawn Bowden AS**<br>Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol |
| 1.10pm | **Neges gan Alyson Thomas**<br>Prif Weithredwr, Llais |
| 1.15pm | **Croeso gan Mick Giannasi**<br>Cadeirydd, Gofal Cymdeithasol Cymru |
| 1.20pm | **Y gwobrau, rhan 1**<br>Dan arweiniad Garry Owen a Sarah McCarty, Prif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru |
| 2.20pm | **Egwyl** |
| 2.40pm | **Y gwobrau, rhan 2** |
| 3.45pm | **Diwedd y seremoni** |

Mae'r amseroedd yn debygol o newid

# Croeso i'r Gwobrau 2025

Croeso cynnes i chi gyd i'r Gwobrau 2025, ein gwobrau blynyddol sy'n dathlu cyflawniadau'r gweithlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol, gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar.

Mae'r Gwobrau yn gyfle i ni dynnu sylw at y bobl a'r prosiectau sy'n mynd yr ail filltir i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

Eleni, rydyn ni'n dathlu 20fed penblwydd y Gwobrau a dros y cyfnod hwnnw rydyn ni wedi cydnabod, dathlu a rhannu gwaith dwsinau o brosiectau a gweithwyr rhyfeddol sy'n darparu gofal a chymorth amhrisiadwy i blant, oedolion a theuluoedd mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae'r gwobrau'n parhau i fynd o nerth i nerth ac eleni, roedden ni wrth ein bodd i dderbyn 127 o geisiadau ac enwebiadau o bob cwr o Gymru – yr ail nifer uchaf yn hanes y gwobrau. Mae'r ymateb gwych hwn yn arwydd o'r gwaith da a gwerthfawrogir gan bobl a theuluoedd sy'n derbyn gofal a chymorth ledled y wlad.

Mae 11 tîm a saith o weithiwr wedi cyrraedd y rownd derfynol. Mae'n bleser i gael eu croesawu nhw yma heddiw ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr i gydnabod, dathlu a rhannu eu cyflawniadau anhygoel.

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi ymgeisio ac enwebu gweithwyr ar gyfer gwobrau eleni oherwydd mae'n golygu y gallwn ni barhau â'r gwaith hynod bwysig hwn o gydnabod, dathlu a rhannu rhagoriaeth mewn gofal.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i lwyddiant y Gwobrau – yn sicr ni allem ei wneud ar ein pen ein hunain. Hoffem ni felly ddiolch i'n beirniaid am eu hamser, eu hymdrech a'u harbenigedd yn ystod y broses feirniadu.

Rydyn ni hefyd yn ddiolchgar i'n noddwyr: Llais, BASW Cymru, Hugh James, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a Practice Solutions. Mae o'r herwydd eu cefnogaeth y gallwn ni ddathlu'r gwaith gwych sy'n digwydd ar draws y sector heddiw.

Llongyfarchiadau i bob un o'r rhai sydd wedi cyrraedd rownd derfynol y Gwobrau. Mae'n llwyddiant rhagorol y dylech chi fod yn falch iawn ohono.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r digwyddiad dathlu heddiw.




**Mick Giannasi CBE, QPM**
Cadeirydd
**Gofal Cymdeithasol Cymru**



**Sarah McCarty**
Prif Weithredwr
**Gofal Cymdeithasol Cymru**

# Panel beirniadu 2025

Roedd y panel beirniadu y Gwobrau 2025 yn cynnwys aelodau ein Bwrdd, cynrychiolwyr o sefydliadau partner, pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, yn ogystal â phobl sydd â phrofiad o ddefnyddio gofal a chymorth yng Nghymru.

Llawer iawn o ddiolch i bob un ohonyn nhw ac i'r sefydliadau canlynol am eu cefnogaeth yn ystod y broses beirniadu:

- Anheddau Cyf
- Antur Waunfawr
- Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
- CARE – Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Credu Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Homecare Association
- Llywodraeth Cymru
- Pineshield.

# Ein cyflwynydd – Garry Owen




Mae Garry'n newyddiadurwr uchel ei barch sydd wedi dilyn storiau mawr ar hyd a lled Cymru a'r byd.

Fel cyflwynydd, mae'n adnabyddus ar y teledu a'r radio. Ar ôl nifer o flynyddoedd yn un o brif gyflwynwyr rhaglen *Newyddion* ar S4C a chyflwynydd y rhaglen radio dyddiol *Taro'r Post*, ac mae nawr yn ohebydd arbennig i BBC Radio Cymru.

Mae hefyd yn aelod o'r tîm o gyflwynwyr ar raglen newyddion BBC Wales, *BBC Wales Today*.

Mae galw mawr am Garry fel cyflwynydd cyngherddau ac roedd yn falch iawn o gyflwyno cyngerdd corau meibion unedig Cymru yn y Royal Albert Hall y llynedd.

Mae wedi derbyn gwahoddiad i ddychwelyd i gyflwyno'r digwyddiad y flwyddyn nesaf, a gynhelir yn yr Eglwys Gadeiriol Anglicanaidd yn Lerpwl.

Mae Garry wedi cyflwyno seremoni wobrwyo'r Gwobrau ers blynyddoedd, ac mae'n dweud ei fod yn "anrhydedd" ac yn ddigwyddiad pwysig y mae'n "edrych ymlaen yn fawr iawn ato".


Y Gwobrau
The Accolades




Y Gwobrau
The Accolades
2024
Adeiladu dyfodol disglair i blant a theuluoedd
Building bright futures for children and families
Y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol
Finalists
Born into Care, Cyngor Abertawe
Born into Care, Swansea Council
Tîm Plentyn i Oedolyn, Cyngor Sir y Fflint
Child to Adult Team, Flintshire County Council
HUGH | JAMES








Y Gwobrau
The Accolades
2024
Y Gwobrau
The Accolades
Y Gwobrau
The Accolades
#Gwobrau2024
#Accolades2024
HUGH | JAMES


Y Gwobrau
The Accolade


Highly commended



# Y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol

Mae'r rhain yn y drefn y cânt eu cyflwyno.

## Adeiladu dyfodol disglair i blant a theuluoedd

HUGH JAMES

**Noddir gan Hugh James**

Mae'r categori hwn yn dathlu sefydliadau, lleoliadau neu brosiectau sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i'w helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

### Cylch Meithrin y Gurnos

Mae Cylch Meithrin y Gurnos yn lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful. Yn ei amgylchedd heddychlon, gall plant ganolbwyntio ar chwarae a dysgu, rhyngweithio cymdeithasol, creadigrwydd a llesiant emosiynol. Maen nhw'n tyfu llysiau yn yr ardd ac yn dysgu buddion ffordd iach o fyw mewn ardal lle gall mannau gwyrdd diogel fod yn anodd eu canfod. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned trwy gynnal digwyddiadau a meithrin perthnasoedd, yn dangos i rieni bod y Gymraeg yn ased i ddyfodol eu plant.

### Teuluoedd yn Gyntaf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cymorth ataliol i deuluoedd â phlant o dan 18 oed neu'r rhai o dan 25 oed sydd ag anghenion ychwanegol. Mae gwasanaethau'n cynnwys ymgysylltu â'r gymuned, cyfryngu, gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion a therapyddion teulu. Mae dull y gwasanaeth, sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn golygu bod cymorth yn cael ei adeiladu ar sail yr hyn sy'n bwysig i deuluoedd a phobl ifanc. Gwrandewir ar y bobl sy'n derbyn cymorth a gallan nhw gymryd perchnogaeth dros eu cynlluniau cymorth, ac o ganlyniad, bu cynnydd mewn teuluoedd yn cyflawni eu hamcanion.

### Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Casnewydd

Mae Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd Casnewydd yn bartneriaeth strategol rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a Barnardo's. Trwy ei gwasanaeth ymateb cyflym a'i thîm therapiwtig, mae'r bartneriaeth yn defnyddio ymyrraeth flaengar, ystyriol o drawma, i leihau nifer y plant mewn gofal yng Nghasnewydd. Mae'r gwasanaeth Ymateb Cyflym yn cwrdd ag anghenion brys teuluoedd sydd ar fin mynd i ofal, tra bod y tîm therapiwtig yn cefnogi teuluoedd sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cadw cymorth yn gyson ac nad oes angen i deuluoedd ailadrodd eu hanes.

# Datblygu ac ysbrydoli'r gweithlu

**Noddir gan BASW Cymru**

Mae'r categori hwn yn dathlu sefydliadau, lleoliadau neu brosiectau sy'n defnyddio dulliau effeithiol, creadigol ac arloesol i ddatblygu'r gweithlu i gwrdd â galwadau a disgwyliadau yn y presennol ac yn y dyfodol.

## Recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol i Blant yn Rhyngwladol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Nod prosiect 'Recriwtio gweithwyr cymdeithasol plant yn rhyngwladol' yw cyflawni'r canlyniadau gorau i blant a theuluoedd trwy sicrhau'r cydbwysedd cywir o sgiliau a phrofiad yn nhimau gwaith cymdeithasol plant yr awdurdod lleol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar recriwtio gweithwyr cymdeithasol rhyngwladol cymwys a phrofiadol i helpu lleihau dibyniaeth y timau ar weithwyr asiantaeth, cadw staff a gwella profiad y gweithlu.

Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi recriwtio 13 o weithwyr cymdeithasol o Dde Affrica, Zimbabwe ac Unol Daleithiau America, sydd wedi dod â sefydlogrwydd i'r timau.

## Elm – Mental Health Care UK yn Sir Ddinbych

Mae Elm Mental Health Care UK o'r farn bod trawsnewid ei ddiwylliant staff a buddsoddi yn y diwylliant hwnnw yn hanfodol i ddarparu gofal rhagorol i'r bobl y mae'n eu cefnogi.

Trwy ganolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol, ymgysylltu â'r gymuned a llesiant staff, mae staff yn gallu darparu gofal o ansawdd uchel yn well gan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae rhaglenni hyfforddiant ar gael yn barod i staff, gan gynnwys gwersi Cymraeg. Mae'r cyfleoedd hyn wedi arwain at ddyrchafiadau a datblygiad proffesiynol sylweddol. Mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a'u bod yn gallu ymgorffori gwerthoedd y lleoliad, sef cynhwysiant a gweithio ar y cyd.

# Y Wobr Arweinyddiaeth Ysbrydoledig

**Noddir gan Practice Solutions**

Mae'r categori hwn yn dathlu arweinwyr rhagorol ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru.



## Avril Bracey, Pennaeth Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Cyngor Sir Gâr

**Enwebwyd gan Corinne Everett-Guy, Uwch-reolwr Timau Gwaith Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Gâr**

Dechreuodd Avril ei gyrfa mewn gofal cymdeithasol 45 mlynedd yn ôl fel gweithiwr dan hyfforddiant mewn gwasanaethau plant. Dywed Corinne fod Avril "wedi profi ei bod yn arweinydd ac yn llysgennad cryf ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion".

Mae Avril wedi cefnogi "dulliau arloesol" mewn gofal cymdeithasol oedolion ac roedd hi'n rhan annatod o ddatblygu'r Noddfa Hwyrnos, sef gwasanaeth llesiant y tu allan i oriau i bobl mewn perygl o gael argyfwng iechyd meddwl. Mae "caredigrwydd, anhunanoldeb, uniondeb a pharodrwydd Avril i fynd y filltir ychwanegol" yn golygu ei bod hi'n dangos "parch ac urddas cyson tuag at bawb mae hi'n cyfarfod â nhw".

Dywed Corinne fod Avril yn "ysbrydoliaeth, gan osod meincnod ar gyfer rhagoriaeth mewn arweinyddiaeth gofal cymdeithasol. Mae ei gallu i ysbrydoli a symbylu ei gwasanaeth wedi arwain at ddiwylliant o welliant parhaus a safonau uchel." Mae un cyfarwyddwr yn disgrifio bod Avril fel "arweinydd ysbrydoledig mewn gofal cymdeithasol…mae hi wedi trawsnewid gofal cymdeithasol oedolion, gan newid bywyd cannoedd o oedolion agored i niwed." Mae Avril wedi eiriol dros ofalwyr di-dâl ac mae wedi datblygu mentrau i wella ymarfer, hefyd. Aeth ymhell y tu hwnt i'r disgwyl i gefnogi ei thîm yn ystod pandemig Covid-19 hefyd.



## Ffion Cole, Prif Swyddog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Enwebwyd gan Alex Williams, Rheolwr Grŵp – Hybiau Ardal**

Mae Ffion wedi gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ers 11 mlynedd ac mae'n Rheolwr Tîm Hyb Ardal Tîm y Gogledd. Cydnabyddir arddull arwain Ffion ar draws yr awdurdod lleol. Mae gweithwyr cymdeithasol newydd

gymhwyso neu amhrofiadol yn aml yn cael eu gosod yn ei 'hacademi gwaith cymdeithasol' am eu chwe mis cyntaf yn y gwaith. Yma, cânt eu cefnogi a'u meithrin gan dîm arbenigol Ffion.

Mae Ffion yn arwain cefnogi gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cael eu recriwtio'n rhyngwladol. Yn flaenorol, roedd mwy na 50 y cant o'r staff yn weithwyr asiantaeth, ond mae nifer y staff asiantaeth wedi lleihau'n sylweddol mewn 18 mis ac mae mwy na 50 y cant o'r gweithwyr cymdeithasol yn yr hybiau ardal bellach yn rhyngwladol. Meddai un gweithiwr cymdeithasol rhyngwladol: "Sicrhaodd Ffion fod y broses sefydlu mor hwylus â phosibl, esboniodd hi bopeth a'm helpu i ymgartrefu'n dda, gartref ac yn y tîm."

Mae Ffion wedi helpu i adeiladu gweithlu cyson a sefydlog, sydd o fudd i blant a theuluoedd yn yr ardal, gan fod gweithwyr yn gallu meithrin perthynas barhaus â'r bobl maen nhw'n eu cefnogi. Meddai Hannah Jones, Uwch Weithiwr Cymdeithasol: "Mae [Ffion] yn haeddu hyn gymaint. Mae'n derbyn popeth fel y daw ac mae hi bob amser yn barod i helpu…"



## Keri Warren, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot

**Enwebwyd gan Nune Aleksanyan, Ruth Griffiths, Chris Frey Davies, Maria Selby a Victoria Smith, prif swyddogion yng Ngwasanaethau Plant a Phobl Ifanc**

Mae Keri wedi bod yn rhan "ymroddedig" o'r uwch dîm rheoli yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot ers 2012, pan ymunodd fel Prif Swyddog, cyn dod yn Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn 2018. Dywed y prif swyddogion fod Keri wedi bod "yn ddim llai nag eithriadol" yn y ffordd mae hi wedi arwain gwasanaethau plant Castell-nedd Port Talbot.

A hithau'n "garedig ei natur", mae Keri yn blaenoriaethu llesiant staff, wrth i'r tîm weithio tuag at "gyflawni canlyniadau cadarnhaol i deuluoedd". Mae Keri yn atgoffa'r tîm am bwysigrwydd ymarfer gwaith cymdeithasol da trwy greu amgylchedd dysgu iach a diogel, annog trafodaethau agored a chael ymateb cyfunol i reoli risg.

Mae Keri wedi gwneud yn siŵr bod y systemau a'r prosesau cywir ar waith fel bod staff yn teimlo'n ddiogel pan fyddan nhw'n delio â sefyllfaoedd anodd yn y gymuned. Dywed un aelod o staff: "Mae Keri yn gefnogol ac mae'n annog cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith fel y gallwn ddelio â bywyd y tu hwnt i'r gwaith heb deimlo'n euog."

Dywed un uwch reolwr: "Mae [Keri] yn gosod safon uchel trwy esiampl ac mae bob amser yn ystyried ffyrdd o roi cyfleoedd i weithwyr ddatblygu a thyfu fel ymarferwyr. Mae llais y plentyn a'r teulu o'r pwys mwyaf iddi." Mae ffocws Keri ar lesiant a datblygiad staff, a dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, wedi creu "amgylchedd cefnogol sy'n meithrin arloesi a chydweithredu".

# Gweithio'n unol ag egwyddorion ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau

Mae'r categori hwn yn dathlu gweithwyr a thimau sy'n helpu creu newid cadarnhaol yn y tymor hir drwy hyrwyddo dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau.

## Cylchoedd Cefnogi, Ategi

Mae prosiect Cylchoedd Cefnogi Ategi ym Mhontypridd yn fodel o ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n grymuso pobl ag anghenion cymhleth i ddefnyddio'u sgiliau mewn cymuned gefnogol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud a sut gallan nhw gyfrannu. Mae'n creu amgylchedd sy'n caniatáu i bobl ag anableddau dysgu ysgafn, amhariadau corfforol a heriau iechyd meddwl feithrin hyder, datblygu galluoedd newydd a gwneud cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon. Mae'r dull hwn yn newid y ffocws o gyfyngiadau i gryfderau, gan helpu pobl i ddiffinio'u llwybrau a goresgyn heriau trwy eu galluoedd eu hunain.

## Cefnogi Pobl i Gyflawni'r Hyn sy'n Bwysig, Tîm Dilyniant Cyngor Sir y Fflint

Mae model cymorth 'Dilyniant' Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau i helpu oedolion ag anableddau dysgu mewn lleoliadau byw â chymorth i ddod yn fwy annibynnol. Mae'r tîm dilyniant, y person sy'n cael ei gefnogi a'i deulu yn cydweithio i osod nodau cyflawnadwy sy'n seiliedig ar gryfderau, gan roi'r person sy'n derbyn gofal wrth wraidd pob penderfyniad. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael y lefel gywir o gymorth i annog annibyniaeth.

Trwy ganolbwyntio ar yr hyn y gallan nhw ei wneud, maen nhw'n datblyg, yn ogystal â chynnal, eu sgiliau. Mae hyn yn helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac yn lleihau eu dibyniaeth ar wasanaethau.

## Gwasanaeth Seibiant a Gofal Dementia Gorllewin Morgannwg, Marie Curie

Mae'r gwasanaeth ataliol hwn yn cynnig cymorth i bobl sy'n byw gyda dementia cyfnod hwyr yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot trwy integreiddio gofal iechyd, dan oruchwyliaeth nyrs gofrestredig, a rhaglen cyfeillion wedi'i rhedeg gan wirfoddolwyr. Mae gofal cartref a gofal seibiant yn cynnig cymorth meddygol ymarferol i helpu pobl aros gartref am gyfnod hirach. Mae gwirfoddolwyr hyfforddedig yn darparu gofal cyfannol, gan helpu'r bobl maen nhw'n eu cefnogi i gynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol, mwynhau eu hobïau a hel atgofion, gan ddarparu gofal seibiant i aelodau eu teulu. Mae dull y gwasanaeth, sy'n seiliedig ar gryfderau, yn rhoi'r person a gefnogir wrth wraidd pob penderfyniad, gan ei helpu i gynnal ei hannibyniaeth yn ddiogel.

# Gweithio mewn partneriaeth

**Noddir gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru**

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Mae'r categori hwn yn dathlu prosiectau neu sefydliadau ar draws gofal cymdeithasol a gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar sy'n gweithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau llesiant i blant, teuluoedd ac oedolion.

## Cysylltu Sir Gâr

Mae Cysylltu Sir Gâr yn brosiect partneriaeth sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Sir Gâr a'i nod yw helpu trigolion i fyw a heneiddio'n dda. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector i wneud yn siŵr bod pobl yn cael y gwasanaethau iawn, ar yr adeg iawn. Mae amrywiaeth o wasanaethau gan ddarparwyr lleol ar gael trwy blatfform Cysylltu Sir Gâr. Mae'r rhain yn cynnwys atal hunanladdiad, gwasanaethau cam-drin domestig a phrosiectau ymgysylltu cymunedol. Gall arbenigwyr o wahanol sefydliadau cydlynu dull person-ganolog i helpu'r bobl a gefnogant i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

## Delta CONNECT

Mae prosiect Delta CONNECT yn ddull cydweithredol gan awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd lleol a gwasanaethau cymunedol ar draws gorllewin Cymru, gyda'r nod o wella canlyniadau llesiant i oedolion hŷn sydd â chyflyrau cronig a'r rhai mewn perygl o ynysu'n gymdeithasol.

Mae Delta CONNECT yn cyfuno gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd i'w gwneud hi'n haws i bobl reoli eu hiechyd a'u llesiant. Mae'n defnyddio technoleg a chymorth wedi'i bersonoli, fel galwadau rhagweithiol a gwasanaeth ymateb 24/7, i gynnig gofal ataliol a rhagweithiol. Diolch i'r gwasanaeth, caiff cleifion eu rhyddhau o'r ysbyty pum niwrnod yn gynt, ar gyfartaledd.

## Porth Lles

Mae Porth Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn bartneriaeth â nifer o sefydliadau awdurdod lleol, iechyd a thrydydd sector. Dim ond unwaith y mae angen i bobl adrodd eu hanes er mwyn cael at wybodaeth, cyngor a chymorth gan yr amrywiol sefydliadau sy'n defnyddio'r platfform digidol. Mae'r Porth Lles hefyd yn darparu gwybodaeth am sut i gael gafael ar gymorth i bobl ifanc, ar dai a thenantiaethau, a chymorth i deuluoedd.

Mae'r porth yn lleihau'r rhwystrau rhag cael cymorth a chafodd ei greu i ymateb i'r adborth gan deuluoedd a oedd wedi cael y broblem hon.

# Gwobr Gofalwn Cymru

**Noddir gan Gofalwn Cymru**

Gofalwn .cymru | WeCare .wales

Mae'r categori hwn yn dathlu gweithwyr gofal plant, chwarae a'r blynyddoedd cynnar, sydd wedi gwneud gwahaniaeth hynod gadarnhaol i fywydau plant a phobl.



## Casey Baker, Gweithiwr Gofal Cymdeithasol, Byw â Chymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Enwebwyd gan Ceri Williams, Rheolwr Gwasanaeth Darparwr Byw â Chymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae agwedd greadigol a pherson-ganolog Casey at ei rôl wedi'i gwneud "yn ffigur annwyl ymhlith y bobl mae hi'n eu cefnogi, a'i chydweithwyr".

Mae Casey bob amser yn chwilio am ffordd o ddod â gwen i wyneb y bobl mae hi'n eu cefnogi. Mae hi'n trefnu partïon pen-blwydd a Nadolig, diwrnodau sba, a nosweithiau crefft, gemau a gwneud pitsa i'r bobl mae hi'n eu cefnogi.

Ond "nid dim ond gweithgareddau yw'r rhain. Maen nhw'n brofiadau wedi'u cynllunio'n ofalus sy'n dod â hwyl ac ymdeimlad o gymuned i bawb sy'n cymryd rhan."

Gallu Casey i gysylltu â phobl ar lefel bersonol sy'n ei gwneud hi'n weithiwr gofal cymdeithasol eithriadol. Mae hi'n ddibynadwy, yn sylwgar ac mae wedi creu amgylchedd meithringar lle mae pawb yn teimlo o bwys, a'u bod yn cael eu cefnogi. Dywed Ceri: "Awydd diffuant i wneud gwahaniaeth cadarnhaol sy'n gyrru gweithredoedd Casey."

Mae ei hymroddiad yn mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau rheolaidd. Wrth ddarparu gofal diwedd oes i un o'r bobl mae hi'n eu cefnogi, aeth Casey ati ar ei phen ei hun i addurno ystafell y person ar gyfer ei phen-blwydd i sicrhau ei bod hi'n gallu dathlu o hyd, er ei bod yn gaeth i'r gwely. Cynigiodd Casey "gysur a llawenydd ar adeg anodd".

Mae Casey hefyd yn cefnogi ac yn annog ei thîm. A hithau'n arwain trwy esiampl, mae wedi creu awyrgylch cydweithredol a thosturiol, ac mae'n ysbrydoli ei chydweithwyr gyda'i pharodrwydd i fynd y filltir ychwanegol. Dywed Ceri: "Mae gweithredoedd Casey yn arddangos y safonau gofal ac ymroddiad uchaf."

## Gayle Jones, Cydlynydd Gofal yn Habitat Homecare, Abertawe



**Enwebwyd gan Lisa Buchanan, Unigolyn Cyfrifol a Chyfarwyddwr yn Habitat Homecare**

Mae Lisa yn disgrifio Gayle fel "conglfaen y tîm" sydd bob amser yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl. Dywed un o'r bobl y mae Gayle yn eu cefnogi: "Mae [Gayle] yn mynd y filltir ychwanegol a does dim byd yn ormod o drafferth iddi. Mae hi'n gweithio mor galed ac yn gwneud fy mywyd o ddydd i ddydd gymaint yn haws."

Ar hyn o bryd, mae Gayle yn cwblhau ei chymhwyster Lefel 5 mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Gayle bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'i gwaith ac ansawdd bywyd y bobl mae hi'n eu cefnogi.

Ar ôl clywed am fenter genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar iechyd y geg, Gwên am Byth, cysylltodd Gayle â hyfforddwyr Gwên am Byth i drefnu sesiynau i'w chydweithwyr. Mae ymarfer gorau ym maes iechyd y geg bellach yn rhan o'r drefn ddyddiol yn Habitat Homecare.

Dywed Lisa fod Gayle "yn ymgorffori tosturi ac uniondeb" ym mhob agwedd ar ei gwaith. Dros y Nadolig, mae hi'n paratoi prydau i gleientiaid sydd mewn perygl o fod yn unig. Mae hi'n "cael ei pharchu'n fawr iawn gan ei chydweithwyr ac mae'n annwyl iawn i'w chleientiaid".

Wrth ddychwelyd i'w swydd ar ôl colli ei phartner, meddai Gayle: "Roeddwn i am wneud fy ngwaith i'r bobl sydd fy angen i a chael ffocws." Dywedodd rheolwr gofal Habitat Homecare: "Mae hi bob amser yn barod i roi help llaw, cynnig arweiniad a chefnogi ei chydweithwyr trwy unrhyw heriau y gallant eu hwynebu. Mae cyfraniadau Gayle at y tîm yn amhrisiadwy ac mae ei hymroddiad diwyro wedi gwneud argraff barhaus."



## Sarah Sharpe, Gofalwr Plant Cofrestredig yn Poppins Daycare ym Mro Morgannwg

**Enwebwyd gan Lee Walker-Metzelaar, Gofalwr Plant**

Mae angerdd ac ymroddiad Sarah yn disgleirio yn ei gwaith fel gofalwr plant. Dywed Lee fod gan Sarah "amynedd di-ben-draw" dros y plant mae hi'n gofalu amdanyn nhw.

Ar ei rhandir yn y Barri, mae Sarah yn addysgu'r plant i blannu, tyfu a chynaeafu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain. Gyda'i Hachrediad Hygge, mae hi'n meithrin perthynas iach gyda bwyd a natur.

Mae Sarah wedi helpu rhieni i fanteisio ar gymorth hanfodol ar gyfer eu plant. Mae hi wedi cyfeirio teuluoedd at Ddechrau'n Deg i gael dosbarthiadau magu plant, ymweliadau iechyd ychwanegol a sesiynau chwarae gartref.

Dywed un rhiant: “Allen ni ddim bod yn fwy diolchgar”. Mae un arall yn disgrifio sut mae gofal Sarah wedi rhoi “ymdeimlad anhygoel o chwarae a hyder” i’w blentyn. Mae Sarah yn cynnig gofal plant am ddim am awr i rieni fel y gallan nhw fynd i’w meddyg teulu i gael prawf ceg y groth. Hefyd, mae Sarah yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i gefnogi gofalwyr plant newydd a hyrwyddo cyrsiau hyfforddiant, ac mae’n cynnig nosweithiau mentora am ddim i ofalwyr plant.

Yn 2024, enillodd Sarah wobr ‘Gweithiwr Chwarae y Flwyddyn’ Clybiau Plant Cymru am ei hymrwymiad i ddysgu. Hefyd, enillodd Wobr y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) Cymru. Meddai Lee: “Sarah sydd â’r galon fwyaf a mwyaf caredig o blith pawb rwy’n eu hadnabod.”



## Terri Steele, Gofalwr Plant Cofrestredig Hunangyflogedig o Geredigion

**Enwebwyd gan Claire Protheroe, Pennaeth Contractau a Phrosiectau’r Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) Cymru**

Mae “egni heintus, brwdfrydedd a gwerthfawrogiad Terri o anghenion plant” yn golygu bod rhieni’r plant mae hi’n gofalu amdanyn nhw yn llwyr ymddiried ynddi, ac mae gan blant “y rhyddid i archwilio [a] gofod i fod yn rhwystredig.”

Mae Terri yn angerddol am ddysgu. Mae ganddi gymhwyster Ysgol Goedwig ac mae’n addysgu’r plant am arddio, yr amgylchedd a diwylliant Cymru. Maen nhw’n dysgu iaith arwyddion, hefyd.

Meddai un rhiant: “Roedd gwybod pa mor hapus yw fy mab gyda Terri yn golygu bod dychwelyd i’r gwaith mor ddi-boen â phosibl. Ni allwch roi pris ar hynny, ond gallwch roi gwobr iddi ar ei gyfer.” Enwebodd rhieni a gofalwyr Terri ar gyfer Gwobr Hyrwyddwr Lles y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY) Cymru, lle bu’n enillydd ar y cyd.

Mae Terri yn ymwneud â’r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae hi’n cymryd rhan mewn fforymau gofalwyr plant, lle mae’n helpu i amlygu’r heriau sy’n wynebu’r sector. Hefyd, mae hi wedi gweithio gydag Uned Gofal Plant Ceredigion i hyrwyddo gofal plant fel gyrfa ac fe’i henwebwyd am wobr ar gyfer y gwaith hwn.

Enwebwyd Terri ar gyfer y Gwobrau yn rhannol gan deulu a gefnogodd yn dilyn marwolaeth eu mab, a ddywedodd: “Mae [Terri] wedi rhoi sicrwydd, tosturi a lle i’m merch lle bydd ei brawd bach bob amser yn cael ei gofio a’i garu … Ni fyddwn i am anfon fy mhlentyn i unman arall.”

# Ein noddwyr

## Llais

**Prif noddwr**

Llais yw'r corff cenedlaethol, annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eich gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Disodlasant yr hen Gynghorau Iechyd Cymuned. Eu rôl yw sicrhau bod barn a phrofiadau'r cyhoedd yn cael eu defnyddio gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gwell.

Mae ganddyn nhw saith swyddfa ranbarthol sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Mae eich tîm Llais lleol yn casglu eich profiadau – da a drwg – o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Eu pedwar dyletswydd allweddol yw:

1. Ymgysylltu a gwrando ar bobl a chymunedau am eich profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol.
2. Cynrychioli'r safbwyntiau hynny i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol.
3. Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion ym mhob rhanbarth ar gyfer cwynion ffurfiol am iechyd a gofal cymdeithasol.
4. Hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r hyn y maen nhw'n ei wneud. O dan y Ddeddf, mae gan gyrff iechyd a gofal cymdeithasol hefyd ddyletswydd i hyrwyddo eu gwaith gyda'r cyhoedd.

## BASW Cymru

**Noddwr y categori 'Datblygu ac ysbrydoli'r gweithlu'**

BASW Cymru, sef Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Prydain (Cymru), yw'r brif gymdeithas broffesiynol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru.

Fel sefydliad aelodaeth, ein rôl yw cefnogi aelodau yn eu hymarfer o ddydd i ddydd, ymgyrchu ar faterion allweddol sy'n ymwneud â gwaith cymdeithasol, a dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth y llywodraeth ar hyd a lled Cymru. Ni yw'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol, yn gweithio ar gyfer a gyda phob gweithiwr cymdeithasol.

## Hugh James

**Noddwr y categori 'Adeiladu dyfodol disglair i blant a theuluoedd'**

Mae Hugh James yn un o'r 100 cwmnioedd cyfreithiol gorau yn y DU sy'n cynnig gwasanaeth llawn, ac mae ei bencadlys yng Nghaerdydd. Mae ein tîm bellach yn cynnwys dros 700 o gyfreithwyr a staff cymorth, a dros 90 o bartneriaid, sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o arbenigeddau cyfreithiol, ond rydyn ni dal yn weithgar iawn yn y sector gofal yng Nghymru.

Mae gwaith y cwmni yn y sector yn cynnwys: darparu cyngor a chynrychiolaeth i awdurdodau cyhoeddus ledled Cymru mewn achosion yn y Llys Gwarchod ac achosion sy'n ymwneud â'r Ddeddf Plant; cynghori awdurdodau cyhoeddus, cyrff chwaraeon a llawer o sefydliadau eraill ar ddiogelu; gweithredu ar ran darparwyr gofal mewn materion corfforaethol, masnachol, rheoleiddiol ac eiddo; a gweithredu ar ran rheoleiddwyr y sector, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

**Noddwr y categori 'Gweithio mewn partneriaeth'**

Yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, rydyn ni'n gyrru'r gwaith o ddatblygu a defnyddio arloesi gwyddorau bywyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydyn ni'n gweithredu fel rhyngwyneb deinamig, gan gysylltu arloeswyr gwyddorau bywyd â phartneriaid ymchwil, cyfleoedd am gyllid ac, yn y pen draw, y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen a'r defnyddwyr. Oherwydd ein bod yn cael deialog cyson gyda'r holl grwpiau hyn, rydyn ni'n gallu sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl drwy gefnogi datblygiadau arloesol sy'n mynd i'r afael â'r anghenion mwyaf hanfodol.

Yn y pen draw, mae ein gwaith yn helpu gyda llesiant meddyliol a chorfforol pobl sy'n byw yng Nghymru ac yn rhoi hwb i ddefnyddio arloesiadau newydd yn y brif ffrwd, yn ogystal â sbarduno twf, swyddi a ffyniant ledled ein gwlad.

## Practice Solutions

**Noddwr y 'Wobr Arweinyddiaeth Ysbrydoledig'**

Mae Practice Solutions yn darparu gwasanaeth ymgynghori sy'n seiliedig ar werthoedd i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus ehangach ledled Cymru a'r DU. Mae'r cwmni'n ysgogi newid ystyrlon wrth gyfuno arweinyddiaeth, arloesi digidol a gwella gwasanaethau, tra'n cynnal ymrwymiad i bobl a chymunedau.

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Y Gwobrau 2025
# The Accolades

Dathlu 20 mlynedd • Celebrating 20 years

[Gadewch i ni wybod eich barn am y seremoni heddiw]

#Gwobrau2025 #Accolades2025

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

HUGH JAMES

BASW Cymru

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Practice Solutions

Gofalwn.cymru | WeCare.wales

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**